Cyngor Cymuned Ganllwyd

Tachwedd 13eg 2024

**Presennol**

Cyng D.Morris, C.Dixon,S.Roberts,G.Jones.

**Ymddiheuriadau**

Cyng D.Griffiths , C.Dixon, G.Jones a S.Jones.

**Cofnodion Hydref 2024.**

Cynnigodd Cyng S.Roberts fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Gwefan yn Neuadd y Pentref- mae swyddogion y neuadd yn edrych i fewn i'r mater yma.

Grant y Parc- bydd Cyng Morris yn gyrru anfoneb er mwyn i'r cyngor cael cwblhau cynnig am y grant!

**Caru Coed y Brenin.**

Adroddodd y Cynghorydd Morris fod CCYB wedi'u syfrdanu o ddarllen y datganiad diweddar i'r wasg gan CNC yn nodi y byddai rhan o Goed y Brenin (caffi, canolfan ymwelwyr) yn cau Mawrth 31ain 2025. Nid oes unrhyw un o CNC wedi siarad â CCYB ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn.

Bydd CNC yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yn neuadd bentref Ganllwyd ar 27 Tachwedd pan fydd y gobaith y byddant yn rhoi rhywfaint o fanylion am y cyhoeddiad hwn.

**Cyngorhwr Sir**.

Bydd Cyng Griffiths yn cael y cyfle i ofyn cwestin mewn cyfarfod llawn Cyngor Gwynedd ynglyn trawsglwyddo tai cyngor yng Ngwynedd.

Bydd y Cynghorydd Griffiths yn diweddaru'r cyngor cymuned yn y cyfarfod nesaf.

Mae'r clerc wedi cadarnhau bod ail lythyr wedi ei anfon i'r Cynghorydd Ap Iago ynglŷn â'r mater hwn. Roedd cynnwys y llythyr yn codi pryderon am aneffeithiolrwydd y rheolau presennol sy'n ymwneud â'r pwnc hwn.

**Rhaglen asedau digidol**.

Bydd y clerc yn cwblhau rhaglen asedu digidol y cyngor.

Wedi gorffen  bydd y wybodaeth yn cael i ddychwelyd i Un Llais Cymru er gwybodaeth.

Bydd y manylion yma yn dangos pa mor effeithiol ydi'r cyngor yn defnyddio eitemau digidol o ddiwrnod i ddiwrnod wrth cwblhau ei ddyletswyddau a rhannu gwybodaeth statudol berthnasol.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Hydref 2024

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £4823.40 |
| | |
| Derbyniwyd: | |
| Ad daliad llwybrau cyhoeddus | £577.10 |
| | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £5.40 |
| | |
| Yn y banc diwedd mis | £5295.10 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno **bod** y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Mae'r cynghorwyr wedi cytuno roi £100 tuag at apel elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

Wedi trafodaeth mae'r cyngor wedi derbynnu amserlen camau gweithredu ariannol blynyddol a cafodd ei cyhoeddi gan Un Llais Cymru Mawrth 2024.

**Materion cymunedol.**

Mae'r cyngor wedi gyrru llythyr i'r Parc C yn cefnogi cyngor cymuned Ffestiniog i wrthwynebu gwerthu Plas Tan y Bwlch.

Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynnu cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol a fydd yn cynnwys ysteriad y trefniadau etholiadaol o fewn pob cymuned yn Ngwynedd h.y nifer o gynghorwyr, nifer a natur y wardiau.

Bydd y cyfnod cyntaf o ymgynghori yn dechrau 11/11 2024 a gorffen 20/12/2024.

Mae'r manylion a sut i ateb ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

Mae'r clerc wedi dosbarthu'r gwybodaeth.